# Datganiad Blynyddol am Uniondeb Ymchwil

2019-20

(P2021-217)

Swansea University
Prifysgol Abertawe

## RHAGARWEINIAD

***Dyma 5ed Datganiad Blynyddol y Brifysgol am Uniondeb Ymchwil ac mae'n berthnasol i'r cyfnod academaidd 2019/20.***

Mae Prifysgol Abertawe wedi llofnodi'r ***Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil.*** I gefnogi a chydymffurfio â'r pum egwyddor a nodir yn y Concordat, yn 2015 diwygiodd y Brifysgol ei strwythurau llywodraethu, ei pholisïau a'i phrosesau parthed Uniondeb Ymchwil. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'w holl staff (gan gynnwys ei staff er anrhydedd), ei myfyrwyr, ei hymwelwyr a'i chydweithredwyr i ymgymryd ag ymchwil yn unol â'r polisïau a'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith Polisi Uniondeb Ymchwil Prifysgol Abertawe.

https://www.swansea.ac.uk/media/P1415-956-Research-Integrity---Policy-Framework-updated-Jan-2020.pdf

Yn 2019, cafodd y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil ei ddiweddaru'n sylweddol. Mae'r Concordat diwygiedig yn cynrychioli uchelgais wedi'i adnewyddu i gryfhau diwylliant ymchwil sector Addysg Uwch y DU ymhellach, a disgwylir i gyflogwyr ymchwilwyr ddarparu datganiad blynyddol am Uniondeb Ymchwil sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n crynhoi cydymffurfiaeth y sefydliad â'r pum ymrwymiad.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn darparu crynodeb byr o'r holl weithgareddau uniondeb ymchwil a wnaed yn 2019-20 gan Brifysgol Abertawe â'r nod o ddangos ei hymrwymiad i bum egwyddor y Concordat.

### YMRWYMIAD 1: Rydym yn ymrwymedig i gynnal y safonau uchaf o ran trylwyredd ac uniondeb ym mhob agwedd ar ymchwil

- **Hyfforddiant a Datblygiad**:

  Hyfforddiant Ar-lein am Uniondeb Ymchwil: Adnewyddodd y Brifysgol ei thrwydded gyda Gwasg Prifysgol Rhydychen (Epigeum) i ddarparu hyfforddiant ar-lein am Uniondeb Ymchwil am gyfnod arall o dair blynedd. Mae'r hyfforddiant **gorfodol** hwn, sy'n cynnwys pum modiwl craidd, ar gael i'r holl staff a myfyrwyr ôl-raddedig drwy borth Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol (CANVAS).
  Mae'r hyfforddiant yn ymdrin â phynciau ym meysydd Ymddygiad Da mewn Ymchwil, Arfer Anghyfrifol mewn Ymchwil, Cynllunio, Rheoli a Chofnodi Ymchwil a Chyhoeddiadau Ysgolheigaidd. Mae saith modiwl ategol arall sy'n berthnasol i bynciau penodol ar gael i staff a hoffai estyn eu gwybodaeth am uniondeb ymchwil. Mae'n ofynnol i staff sy'n ymgeisio am gyllid ac yn ymgymryd ag ymchwil gyda'r GIG gwblhau'r hyfforddiant cyn derbyn cyllid neu nawdd am ymchwil.
  Mae'r hyfforddiant wedi cael ei hyrwyddo'n rheolaidd drwy e-byst at yr holl staff gan y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) a Phenaethiaid Colegau/Ysgolion. Mae data am hyfforddiant uniondeb ymchwil ar gyfer staff wedi cael ei lanlwytho i borth datblygiad proffesiynol y staff a'i drafod â rheolwyr llinell yn ystod eu hadolygiad blynyddol. Hefyd, mae data am hyfforddiant staff wedi cael ei drafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol a'i ddosbarthu i Benaethiaid Colegau/Ysgolion er gwybodaeth.
  Mae myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig wedi bod yn ymgymryd â'r hyfforddiant am uniondeb ymchwil a disgwylir iddynt gwblhau pob un o'r 12 modiwl gorfodol yn ystod eu blwyddyn astudio gyntaf a chyn rhoi adolygiad moesegol a chadarnhau eu hymgeisyddiaeth.

Hyfforddiant Ar-lein am Ddiogelu: Cafodd y drwydded ar gyfer y pecyn hyfforddi ar-lein 'Diogelu mewn Addysg Uwch' ei hadnewyddu am flwyddyn arall (2019/20). Mae'r hyfforddiant hwn yn darparu gwybodaeth a chanllawiau defnyddiol am ofynion rheoleiddio i ymchwilwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed ac mae'n hyfforddiant **gorfodol** y mae'n rhaid ei gwblhau cyn i gymeradwyaeth foesegol gael ei rhoi am brosiect.

Hyfforddiant wyneb yn wyneb: Darperir pecyn hyfforddiant arall drwy'r Gwasanaethau Datblygu a Hyfforddiant Staff (DTS) a'r Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS) am ymchwil gyda meinweoedd dynol, treialon clinigol, llywodraethu ymchwil, moeseg ac uniondeb ymchwil sydd ar gael i staff a myfyrwyr.

Cyfres o seminarau am Uniondeb Ymchwil: Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliodd y Sefydliad Ymchwil Moeseg a'r Gyfraith ei gyfres o seminarau am amrywiaeth o bynciau ym maes uniondeb ymchwil a gwahoddwyd siaradwyr blaenllaw ac ymchwilwyr profiadol o'r DU a thramor i gymryd rhan.

Cyfres Gweminarau a Hyfforddiant yr UKRIO ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil: Cymerodd aelodau Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y Brifysgol a Cholegau ran mewn sesiwn hyfforddiant (drwy Zoom) a gynhaliwyd gan Mr David Carpenter o Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU. Dosbarthwyd hysbysiadau am Weminarau misol yr UKRIO yn rheolaidd i aelodau. Cymerodd nifer helaeth o staff ran yn y gweminarau hyn ac roeddent o'r farn eu bod yn ddefnyddiol.

### YMRWYMIAD 2: Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ymchwil yn cael ei chynnal yn unol â'r fframweithiau, y rhwymedigaethau a'r safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol priodol.

- **Polisïau, Prosesau a Chanllawiau :**
  Adolygwyd y Fframwaith Polisi Uniondeb Ymchwil i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, gofynion rheoleiddio ac arferion ymchwil. Cymeradwyodd is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol y polisïau newydd canlynol:

  - P1617-1012: Polisi ar Asesu Risg Prosiectau Ymchwil
  - Polisi ar Werthuso Gwasanaeth.
  - P1920-793: Polisi ar Ymdrin â Honiadau o Gamymddygiad mewn Ymchwil (Diwygiad; Fersiwn 2) (fe'i cymeradwywyd hefyd gan y Senedd a'r Pwyllgor ar gyfer Strategaeth Ymchwil ac Arloesi)
  - Gweithdrefn ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Gamymddygiad mewn Ymchwil (Diwygiad; Fersiwn 2) (fe'i gymeradwywyd hefyd gan y Pwyllgor ar gyfer Strategaeth Ymchwil ac Arloesi)

- **Systemau Adolygiad Moesegol Ar-lein:**
  Penderfynodd Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd estyn ei drwydded gydag Infonetica, system rheoli adolygiadau moeseg ar-lein. Byddai'r broses hon yn caniatáu i geisiadau ymchwil y Coleg cyfan gael eu hasesu ar-lein, gan leihau'r baich o ran amser staff i brosesu ceisiadau a byddai hyn yn darparu trefniadau adrodd gwell. Yn 2017, cafodd system Infonetica ei threialu yn yr Adran Seicoleg a oedd o'r farn bod y system yn ddefnyddiol ar gyfer adolygu ac adrodd ar ei nifer mawr o geisiadau.

  Mabwysiadwyd y system adolygiad moeseg mewnol ar-lein a ddatblygwyd gan y Coleg Gwyddoniaeth yn llwyddiannus gan Goleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

  Trafododd Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol fanteision system adolygiad moeseg ar-lein a chytunodd yr aelodau y byddai un system ar gyfer y Brifysgol gyfan yn darparu data gwell ac yn helpu i fonitro risgiau ymchwil. Trafododd y Deon Academaidd yr agwedd hon â'r Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) a Phrif Swyddog Digidol y Brifysgol â'r nod o gyflawni cynnydd ar y mater yn y flwyddyn academaidd nesaf.

- **Tudalennau gwe Uniondeb Ymchwil:**
  Yn ystod 2019/20, diweddarwyd tudalennau gwe uniondeb ymchwil y Brifysgol, gan ychwanegu gwybodaeth am bolisïau newydd, hyfforddiant a newyddion am ymchwil. Cafodd adrannau llywodraethu ymchwil a meinweoedd dynol y tudalennau gwe eu diweddaru gan ychwanegu gweithdrefnau gweithredu safonol a siartiau llif.
  Yn unol â gofynion y Concordat, ychwanegwyd enwau'r uwch aelodau staff yn y Brifysgol â chyfrifoldeb am uniondeb ymchwil at y dudalen lanio ar gyfer uniondeb ymchwil, ynghyd ag enwau'r aelodau staff a fyddai'n bwynt cyswllt cyntaf i ateb ymholiadau am uniondeb ymchwil.

  Parhaodd y Brifysgol i danysgrifio i Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO) a chafodd ei chynorthwyo gan yr UKRIO i egluro materion proses a pholisi.

## YMRWYMIAD 3: Rydym yn ymrwymedig i gynnal amgylchedd ymchwil sydd wedi'i ategu gan ddiwylliant o uniondeb ac sy'n seiliedig ar lywodraethu da, arfer gorau a chymorth ar gyfer datblygiad ymchwilwyr.

- **Strwythurau Llywodraethu**

  Is-Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol

  Parhaodd is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol i gwrdd yn ystod y flwyddyn er mwyn darparu trosolwg strategol ar gyfer nifer o bolisïau a phrosesau'r Brifysgol a darparu cymorth, cyngor ac arweiniad i Golegau/Ysgolion. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd i'r pwyllgor gan bwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Colegau a'r Ysgolion, gan amlygu nifer y ceisiadau a dderbyniwyd a'u statws risg. Hefyd, derbyniodd Pwyllgor y Brifysgol adroddiadau gan is-bwyllgorau eraill megis Ymchwil Anifeiliaid (AWERB), Treialon Clinigol (Uned Dreialon Abertawe), Llywodraethu Meinweoedd Dynol (HTA) a'r Sefydliad Moeseg a Chyfraith Ymchwil (RIEL). Yn ogystal, derbyniodd y pwyllgor ddiweddariadau gan adrannau Gwasanaethau Proffesiynol, yn enwedig mewn perthynas â chydymffurfiaeth â 'Prevent', ymchwil sy'n sensitif o ran diogelwch, GDPR ac Ymchwil, Rheoli Data Ymchwil, Mynediad Agored, Diogelu a gweithio gyda Phlant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed a Pharhad Busnes a Gwydnwch.

  Pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil Colegau

  Mae gan bob Coleg/Ysgol bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil gweithredol sydd wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd. Mynychodd Cadeiryddion pwyllgorau Colegau/Ysgolion Bwyllgor y Brifysgol gan ddarparu adroddiadau rheolaidd. Lle bynnag yr oedd angen, parhaodd is-bwyllgorau ychwanegol i gefnogi pwyllgorau Moeseg Ymchwil y Colegau/Ysgolion.

  Llywodraethu Ymchwil a Noddi Ymchwil:

  Atgyfnerthwyd y prosesau Llywodraethu a Noddi Ymchwil ymhellach drwy gyflwyno gweithdrefnau a phrotocolau gweithredu safonol. Mynychodd y Deon Academaidd a'r Swyddog Llywodraethu Ymchwil gyfarfodydd misol y Cyd-bwyllgor Adolygiad Gwyddonol (JSRC). Darparwyd hyfforddiant ar brotocolau a gweithdrefnau Llywodraethu Ymchwil i Feinweoedd Dynol i staff. Mae Memorandwm o Ddealltwriaeth diwygiedig yn cael ei lunio rhwng Prifysgol Abertawe, Uned Dreialon Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe lleol. Cyflwynwyd papur i'r Uwch-dîm Rheoli ynghylch y risgiau sydd ynghlwm wrth ddiffyg cydymffurfiaeth oherwydd diffyg monitro ym meysydd meinweoedd dynol a phrosiectau presennol nad ydynt yn rhai CTIMP (Treial Clinigol o Gynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliol). Cytunwyd y byddai cyllid yn cael ei sicrhau i recriwtio Swyddog Sicrhau Ansawdd a fyddai'n monitro ac yn archwilio prosiectau ymchwil.

## YMRWYMIAD 4: Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio prosesau tryloyw, cadarn a theg i ymdrin â honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil wrth iddynt godi.

- <u>Camymddygiad Mewn Ymchwil</u>:

Cafodd Polisi'r Brifysgol ar Ymdrin â Honiadau o Gamymddygiad mewn Ymchwil ei ddiwygio a'i gymeradwyo gan Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, y Pwyllgor ar gyfer Strategaeth Ymchwil ac Arloesi a chan y Senedd yn ei chyfarfod ym mis Mehefin 2020. Cafodd y Weithdrefn ddiwygiedig ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Gamymddygiad mewn Ymchwil ei chymeradwyo gan Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, y Pwyllgor ar gyfer Strategaeth Ymchwil ac Arloesi. Adlewyrchodd y fersiwn ddiwygiedig ganllawiau newydd a gyhoeddwyd gan Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU, yr UKRI a Datganiad y Grŵp Russell o Gydweithredu mewn perthynas â honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil draws-sefydliadol ac ymchwiliadau i'r rhain.

Newidiwyd y 'Cyswllt a Enwir' ar gyfer derbyn honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil o'r Prif Swyddog Gweithredu/Cofrestrydd i'r Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi). Cafodd manylion y 'cyswllt a enwir', a chyfeiriad e-bost pwrpasol, eu hysbysebu ar dudalennau gwe'r Brifysgol a hysbyswyd y staff am hyn. Dynodwyd y Rheolwr Uniondeb Ymchwil i weithredu fel trydydd parti i ddarparu cyswllt cyfrinachol i unigolyn sy'n dymuno mynegi pryder ynghylch uniondeb ymchwil a gynhelir gan ei adran.

Cynhaliwyd pob proses sgrinio ac ymchwiliad i gamymddygiad mewn ymchwil yn unol â Pholisi'r Brifysgol ac roedd y paneli ymchwilio'n cynnwys aelod allanol o sefydliad addysg uwch arall yn y DU.

Yn ystod 2019/20, derbyniodd y Brifysgol yr honiadau canlynol o dan weithdrefnau Camymddygiad mewn Ymchwil y Brifysgol:

| Blwyddyn | Honiad | Natur y camymddygiad honedig | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 2019 | 1 | Anghydfod am awduraeth a llên-ladrad<br><br>(ymchwiliad a oedd yn parhau o fis Rhagfyr 2018) | Cadarnhawyd yn rhannol a phennwyd cosbau.<br><br>(Daeth y panel i'r casgliad, ar sail pwysau tebygolrwydd, fod yr honiad o gamymddygiad mewn ymchwil wedi ei **'gadarnhau'n rhannol'.** Ategodd y dystiolaeth yr honiad o fethiant i lynu wrth arferion a dderbynnir yn gyffredinol mewn ymchwil, a chamliwio cyfranogiad, gan gynnwys **gwadu awduraeth** lle roedd awdur wedi gwneud cyfraniad sylweddol (awduraeth anghywir). |
| 2019 | 2 | Torri'r Ddyletswydd Gofal ac anghydfod am awduraeth | Dim tystiolaeth prima facie o gamymddygiad mewn ymchwil a fyddai'n cyfiawnhau ymchwiliad pellach. |
| | | | |
| 2020 | 1 | Dyfeisio a Ffugio Data | Sefydlwyd panel sgrinio. Tystiolaeth Prima Facie. Mae'r ymchwiliad yn parhau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2020 | 2 | Anghydfod am awduraeth (Traws-sefydliadol) | Datryswyd drwy gyfryngu. |
| 2020 | 3 | Llên-ladrad<br><br>(Traws-sefydliadol) | Cam Sgrinio |

**YMRWYMIAD 5 : Rydym yn ymrwymedig i gydweithio i gryfhau uniondeb ymchwil ac i adolygu cynnydd yn rheolaidd ac yn agored.**

**Heriau ar gyfer 2020/21**:

- **Hyfforddiant**

Cyflwynwyd Hyfforddiant Epigeum ar Uniondeb Ymchwil (Fersiwn 2) ac mae ar gael i staff a myfyrwyr drwy borth e-ddysgu newydd Canvas. Her i'r flwyddyn academaidd newydd fyddai sicrhau bod cyfranogiad staff yn yr hyfforddiant yn parhau a bod adroddiadau amserol a phriodol ar hyfforddiant staff yn cael eu darparu i'r staff a'r Uwch-dimau Rheoli. Mae'r posibilrwydd o estyn yr hyfforddiant i fyfyrwyr Meistr a Addysgir ac israddedigion yn eu blwyddyn olaf yn cael ei archwilio drwy'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu. Byddai'r broses hon yn sicrhau ein bod yn hyfforddi ymchwilwyr gwell ar gyfer y dyfodol sy'n deall sut i ymgymryd ag ymchwil ag uniondeb.

- **Safoni ceisiadau moeseg a chyflwyno system adolygiadau moesegol ar-lein**

Sefydlwyd grŵp Tasg a Gorffen i weithio tuag at safoni'r holl ffurflenni cais moeseg (fersiynau papur a ffurflenni ar-lein) i gynnwys cwestiynau sy'n asesu'r lefelau risg mewn ymchwil yn briodol. Y nod yw gweithredu argymhellion yr adroddiad ar y cyd-adolygiad gan Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU ac ARMA. Y disgwyliad yw y byddai'r ffurflenni cais yn cynnwys rhestr wirio a fydd yn pennu'r lefel risg. Wedyn byddai modd monitro ac archwilio'r ymchwil mewn perthynas â'r risg.

Bydd cyflwyno system ar-lein effeithiol at ddibenion adolygiadau moesegol yr holl geisiadau ymchwil yn cynorthwyo gyda'r broses uchod ac yn helpu i leihau llwyth gwaith gweinyddol staff. Byddai system ar-lein yn darparu tryloywder a ffordd haws o adrodd ar gyfer cydymffurfiaeth.

- **Ymgysylltu a chynyddu ymwybyddiaeth o uniondeb ymchwil**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwnaed ymdrechion anferth i gyflawni a chefnogi ymrwymiad y Brifysgol i'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. O ganlyniad, mae'r Brifysgol mewn sefyllfa well nag erioed mewn perthynas â pholisïau, prosesau, protocolau, hyfforddiant a gwybodaeth ar gyfer staff a myfyrwyr. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau 'newid diwylliannol' i 'gynyddu ymwybyddiaeth' ymhlith ymchwilwyr o fanteision ymgymryd ag ymchwil ag uniondeb. Ffocws gweithgareddau uniondeb ymchwil yn y flwyddyn i ddod fyddai hyfforddiant pellach a chynnal gweithgareddau mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill o fewn y Brifysgol, megis RIEL a Sefydliad Astudiaethau Uwch Morgan.

- **Cynyddu ymwybyddiaeth o brosesau rhoi gwybod am achosion o Gamymddygiad mewn Ymchwil**

Ymrwymiadau'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil sydd wedi cymell y Brifysgol i adolygu ei pholisi a'i gweithdrefnau mewn perthynas â rhoi gwybod am honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil. Bellach mae gan dudalen we uniondeb ymchwil y Brifysgol gyfeiriad e-bost a chyswllt penodol i roi gwybod am honiadau o'r fath. Mae gofynion arianwyr parthed rhoi gwybod am ddiffyg cydymffurfiaeth mewn perthynas â diogelu, ystadegau am fwlio ac aflonyddu a gwrthdaro buddiannau, yn golygu y byddai'n rhaid mabwysiadu ymagwedd gydgysylltiedig at roi gwybod, diwygio'r broses ymhellach a rhoi gwybod i'r staff. Byddai'r newidiadau hyn yn

cyflwyno tryloywder mewn prosesau ymchwil ac yn gwella'r amgylchedd ymchwil ar gyfer ymchwilwyr yn y dyfodol.

- **Llywodraethu Ymchwil a Noddi Ymchwil:**

Gweithgareddau parhaus ym maes llywodraethu ymchwil fyddai sefydlu prosesau a phrotocolau ar gyfer llywodraethu ymchwil a nawdd ymchwil ymhellach, tudalennau gwe ymchwil glinigol sy'n cynnwys polisïau, prosesau a siartiau llif ar gyfer staff, hyfforddiant priodol etc. Mae sefydlu gweithdrefnau gweithredu safonol i fonitro ac archwilio prosiectau ac atal effeithiau niweidiol yn uchel ar y rhestr o flaenoriaethau yn y maes hwn ar gyfer 2020-21. Byddai angen adnodau staff i'n galluogi i gyflawni'r uchod.

***<u>Gwybodaeth bellach:</u>***

Lluniwyd y datganiad hwn gan y Rheolwr Uniondeb Ymchwil a chafodd ei gymeradwyo yng nghyfarfod is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020 a chyfarfod y Pwyllgor ar gyfer Strategaeth Ymchwil ac Arloesi a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020.

Os oes gennych ymholiadau neu os hoffech gael gwybodaeth am faterion uniondeb ymchwil, e-bostiwch: researchintegrity@abertawe.ac.uk.

*Diwedd yr adroddiad*